



Hysbysiad o benodi o'r dyddiad ar gyfer arfer hawliau etholwyr

Cyngor Dinas Llanellwyr

Blwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2026

1. Dyddiad cyhoeddi 10 Mehefin 2026
- 2.
3. Bob blwyddyn mae'r cyfrifon blyneddol yn cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cyn y dyddiad hwn, mae gan unrhyw berson sydd â diddordeb gyfle i archwilio a gwneud copiâu o'r cyfrifon a'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebâu ac ati sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gweithio ar rybudd rhesymol. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026, bydd y dogfennau hyn ar gael ar rybudd rhesymol ar gais i:

Mrs Jill Ellison, Clerc I Gyngor y Ddinas
PO Box 224, Llanfairfechan LL57 9EQ
e-bost: clerk@stasaphcitycouncil.gov.uk

rhwng oriau 10 yb a 4.30 yp o ddydd Llun i ddydd Gwener

gan ddechrau **06 Gorffennaf 2026**

ac yn gorffen ar **31 Gorffennaf 2026**

4. O 14 Medi 2026, hyd nes y bydd yr archwiliad wedi'i gwblhau, mae gan Etholwyr Llywodraeth Leol a'u cynrychiolwyr hefyd:

yr hawl i holi'r Archwilydd Cyffredinol am y cyfrifon.

yr hawl i fynychu gerbron yr Archwilydd Cyffredinol a gwneud gwrthwynebiadau i'r cyfrifon neu unrhyw eitem ynddynt. Rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig o wrthwynebiad i'r Archwilydd Cyffredinol yn gyntaf. Rhaid rhoi copi o'r hysbysiad ysgrifenedig i'r cyngor hefyd.

Gellir cysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol drwy: Archwiliadau Cyngorau Cymuned, Archwilio Cymru, 1 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ neu drwy e-bost yn communitycouncilaudits@audit.wales.

Mae'r archwiliad yn cael ei gynnal o dan ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.



Hawliau etholwyr o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

Yn ôl y gyfraith, gall unrhyw un archwilio cyfrifon y cyngor. Os ydych wedi cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau cynghorau lleol, mae gennych chi (neu rywun sy'n gweithredu ar eich rhan) yr hawl hefyd i ofyn cwestiynau i'r Archwilydd Cyffredinol am y cyfrifon ac i godi gwrthwynebiadau ffurfiol.

Arolygu'r cyfrifon

Unwaith y bydd y cyngor wedi cwblhau ei gyfrifon, rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i'w harchwilio. Ar ôl rhoi rhybudd rhesymol, gallwch archwilio'r cyfrifon a'r dogfennau ategol am 20 diwrnod gweithio. Gellir gofyn am gopïau, er y gallai fod tâl copïo am hyn.

Gofyn cwestiynau i'r archwilydd

Dim ond am y cyfrifon sy'n destun archwiliad y gellir gofyn cwestiynau. Nid oes rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ateb cwestiynau am bolisiâu, penderfyniadau neu weithdrefnau'r cyngor oni bai eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cyfrifon, ac nid oes rhaid iddo ddweud a yw rhywbeth yn gyfreithlon neu'n rhesymol.

Gwrthwynebu'r cyfrifon

Os ydych chi'n credu bod y cyngor wedi gwario arian yn anghyfreithlon, neu fod rhywun wedi achosi colled ariannol yn fwriadol neu drwy ymddygiad anghyfrifol, gallwch wrthwynebu. Rhaid gwneud gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig i'r Archwilydd Cyffredinol, egluro'r rhesymau'n glir, a rhaid anfon copi at y cyngor hefyd. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn penderfynu pa gamau, os o gwbl, i'w cymryd. Mewn rhai achosion, efallai y byddwch yn apelio i'r llysoedd. Gallwch hefyd wrthwynebu os ydych chi'n credu bod problem yn y cyfrifon y dylid ei adrodd yn gyhoeddus er budd y cyhoedd. Ni ellir defnyddio'r broses hon i wneud cwynion neu hawliadau personol.

Ffyrdd eraill o godi pryderon

Yn hytrach na gwneud gwrthwynebiad ffurfiol, gallwch ddarparu gwybodaeth i'r Archwilydd Cyffredinol os ydych chi'n credu bod gwallau yn y cyfrifon neu bryderon am wastraff neu aneffeithlonrwydd. Nid oes unrhyw weithdrefnau na dyddiadau cau penodol ar gyfer gwneud hyn.

Gwybodaeth bwysig

Mae'r gost o ddelio â chwestiynau a gwrthwynebiadau yn cael ei dalu gan drethdalwyr lleol. Dim ond materion sydd er budd y cyhoedd y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ymchwilio. Os byddwch yn mynd â mater i'r llys, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu eich costau eich hun.

Cysylltwch

Cysylltwch ag Archwilydd Cyffredinol Cymru Archwiliadau Cyngor Cymuned, Archwilio Cymru1 Capital Quarter, Stryd TyndallCaerdydd, CF10 4BZ